



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**At:**

Sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau Addysg Uwch dynodedig  
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr  
UCAS  
Y Brifysgol Agored yng Nghymru  
Grŵp Rhanddeiliaid Cyllid Myfyrwyr Cymru  
UCM Cymru  
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru  
Prifysgolion Cymru  
Anabledd Cymru  
Cymdeithas Technoleg Gynorthwyol Prydain  
Canolfannau Asesu Annibynnol yng Nghymru  
Aelodau Grŵp Rhanddeiliaid Myfyrwyr Anabl  
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru

Chwefror 2019

Annwyl Gyfaill

**LWFANSAU I FYFYRWYR ANABL – NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I DYSTIOLAETH O GYMHWYSTRA AR GYFER MYFYRWYR AG ANAWSTERAU DYSGU PENODOL (ADP)**

Mae'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn eich hysbysu am newid arfaethedig i'r gofynion tystiolaeth ar gyfer myfyrwyr ag ADP wrth wneud cais am Lwfansau i Fyfrwyr Anabl (y Lwfansau) gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.

Ar hyn o bryd, mae myfyrwyr ag ADP sy'n gwneud cais am y Lwfansau yn gorfod darparu adroddiad ar asesiad diagnostig a gynhaliwyd ar ôl eu pen-blwydd yn 16 oed. O ddyddiad yr hysbysiad hwn ymlaen, ni fydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn gwrthod asesiad diagnostig a gyflwynwyd mewn cysylltiad ag ADP ar sail oedran y myfyriwr pan gynhaliwyd yr asesiad diagnostig.

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn credu ei fod yn rhesymol i gael gwared ar gynnwys y gofyniad oedran ar gyfer tystiolaeth o gymhwystra. Bydd y newid arfaethedig hwn yn helpu i wella'r broses o wneud cais am y Lwfansau.

**Crynodeb o'r newid arfaethedig i'r gofynion o ran tystiolaeth o gymhwystra**

Mae Lwfansau i Fyfrwyr Anabl ar gael i dalu'r costau astudio ychwanegol sy'n wynebu myfyrwyr anabl o ganlyniad uniongyrchol i'w hanabledd, fel cyflwr iechyd tymor hir, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol. Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfrwyr) (Cymru) 2018 a'r Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfrwyr) (Cymru) (fel y'u



**Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 01/2019)**  
**Student Finance Wales Information Notice (SFWIN 01/2019)**

diwygiwyd) 2017 yn amodi y caiff y Lwfansau eu dyfarnu i fyfyrwyr sy'n gorfod talu costau ychwanegol wrth astudio, a hynny o ganlyniad uniongyrchol i'w hanabledd.

Cyn y newid hwn, er mwyn profi eu cymhwyster ar gyfer y Lwfansau, bu rhaid i fyfyrwyr ag ADP darparu prawf o'u cyflwr drwy asesiad diagnostig gan seicolegydd neu athro arbenigol sydd â chymwysterau addas. Byddai angen i'r ymgeiswyr gael eu hailasesu os oedd yr asesiad diagnostig wedi'i gynnal pan oeddent o dan 16 oed. Byddai'r ailasesiadau hyn fel arfer yn gostus a byddai angen i'r myfyriwr dalu am yr ailasesiad neu byddai Darparwr Addysg Uwch y myfyriwr yn talu'n llawn/rhannol amdano.. Byddai hefyd fel arfer yn arwain at oedi wrth brosesu cais y myfyriwr am y Lwfansau.

Felly, o ddyddiad yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn ymlaen, bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn derbyn adroddiadau ar asesiadau diagnostig fel tystiolaeth o APD, ni waeth beth oedd oedran y myfyriwr ar adeg yr asesiad.

Bydd y newid hwn yn berthnasol i holl fyfyrwyr amser llawn, rhan-amser ac ôl-raddedig (gan gynnwys dysgu o bell) sy'n gwneud cais am y Lwfansau am y tro cyntaf.

**YMHOLIADAU**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Lwfansau neu'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn, cysylltwch ag Is-adran Addysg Uwch Llywodraeth Cymru drwy e-bostio [cyllidmyfyrwyr@llyw.cymru](mailto:cyllidmyfyrwyr@llyw.cymru). Os oes gennych ymholiad ynglŷn â chais myfyriwr am Lwfans, ffoniwch Cyllid Myfyrwyr Cymru ar 0300 200 4050.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi.

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras , mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill. Gallwch lawrlwytho copi Cymraeg neu Saesneg o'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn drwy'r wefan ganlynlol: [www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk)